# Swyddog Lles Ieuenctid

| | |
|---|---|
| TGP Cymru yw un o'r elusennau mwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan sawl cyllidwr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru. | tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES |
| **Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau i Deuluoedd – Rhaglen Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches | |
| **Yn atebol i:** Rheolwr Datblygu ar gyfer y Rhaglen Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches | |
| **Lleoliad:** O gartref gyda chylch gwaith Cymru gyfan a chyfleusterau desgiau poeth yng Nghaerdydd ac Abertawe. | |

**Diben y rôl:**

I fod yn bwynt cyswllt sefydlog ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Geiswyr Lloches (18 i 25 oed) sy'n byw mewn Canolfannau Llety Cychwynnol, a'u helpu i ddatrys materion uniongyrchol lle y bo'n bosibl, darparu cymorth i gael gafael ar gymorth cymdeithasol ac emosiynol, yn ogystal ag eirioli, cyfeirio a rhoi gwybodaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc sy'n gymwys i ddefnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sy'n honni i fod yn blant dan oed.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc drwy waith eirioli, mentora, cyfeirio, gwybodaeth a gwaith cyfranogol, gan ddyfeisio a hwyluso gweithdai i feithrin eu dealltwriaeth.
- Negodi â gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr achos y Swyddfa Gartref, cyfreithwyr, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol, gweithwyr tai a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran plant / pobl ifanc – a mynd gyda nhw i fforymau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli
- Cefnogi plant a phobl ifanc i wneud cwynion anffurfiol / ffurfiol lle y bo angen i gyrff statudol / gwirfoddol fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn y fframwaith o ganlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru, gan gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac arferion gwrthwahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn y swydd.
- Rhwydweithio'n briodol â chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Ymgymryd â'r cyfryw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill ag y gall fod eu hangen yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r raddfa.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Cyfrifoldeb am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau'r gwasanaeth a'r unigolyn.

**Cyfrifoldeb rheoli llinell:**
Dim

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb:**
£0

**Graddfa:**
Graddfa 2

**Amodau gwaith:**

Dau ddeg pedwar awr yr wythnos i'w cytuno gyda dull gweithio hyblyg fydd yn cynnwys gweithio weithiau ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros dros nos weithiau i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau, teithiau preswyl gyda phobl ifanc neu hyfforddiant.

Mynychu grŵp galw heibio rheolaidd i bobl ifanc yn hwyr y prynhawn / yn gynnar gyda'r nos yng Nghaerdydd a / neu Abertawe

Bydd angen teithio i leoliadau gwahanol ledled Cymru a'r DU hefyd.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel iechyd ac addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- cynhyrchu canlyniadau o ansawdd sy'n canolbwyntio ar wasanaethau mewn modd amserol a bydd yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt
- gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd gwahanol pobl eraill
- cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn ffordd glir, gryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu
- bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- ceisio cyfleoedd i ddysgu'n barhaus a thyfu'n broffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

Bydd deiliad a swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a record o gyflawni'r canlynol:

- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau
- Gweithio gyda phlant / pobl ifanc sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid (dymunol)
- Gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar ffoaduriaid / ceiswyr lloches ifanc
- Gwybodaeth am ddulliau eirioli
- Gwybodaeth am ddiogelu
- Gwybodaeth am y System Ceisio Lloches a chyd-destun ehangach Ceisio Lloches ac Ymfudo
- Profiad personol o fynd drwy System Ceisio Lloches y DU neu brofiad blaenorol o gefnogi eraill sy'n mynd drwy'r system (dymunol)
- Gallu mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma wrth weithio gyda phobl ifanc

**Arall**

- Dangos gwerthoedd ac ymddygiad TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol ymhlith eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a mynediad at drafnidiaeth (dymunol ond nid yn hanfodol)